CYP(3)-13-10 : Paper 1

# Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol ar Rianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith: Y wybodaeth ddiweddaraf ym mis Hydref 2010


**Crynodeb:**

Ym mis Mai 2009, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ei adroddiad, 'Rhianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith'. Gwnaeth yr adroddiad 11 o argymhellion; derbyniwyd y rhain, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyhoeddwyd ymateb ysgrifenedig Llywodraeth y Cynulliad i'r argymhellion hyn ym mis Mehefin 2009.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor bellach wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog dros Blant yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau hyd yma yn erbyn yr argymhellion yn sgîl rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r Fenter Teuluoedd yn Gyntaf.


1. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog dros Blant yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor, 'Rhianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith'.

2. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion, y cafodd rhai eu derbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chafodd y gweddill eu derbyn mewn egwyddor. Nododd ymateb ysgrifenedig y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ym mis Mehefin 2009, safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ar yr adeg honno.

3. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi plant. Y ffactor allweddol yn hyn o beth yw datblygu polisïau a gwasanaethau di-dor ymhellach i ddarparu cymorth i deuluoedd ar sail gyfannol yn hytrach nac ar sail rhieni yn unig. Yn unol â hynny, rydym wedi adeiladu ymhellach ar sylfeini'r cynllun gweithredu ac adroddiad y Pwyllgor ac wedi datblygu ymagwedd newydd ac ehangach o lawer at gymorth i deuluoedd, fel yr amlygwyd gan y fenter Teuluoedd yn Gyntaf.

4. Lansiwyd Teuluoedd yn Gyntaf ym mis Gorffennaf a'i nod yw hyrwyddo arloesedd mewn ffyrdd o weithio i gynnig atebion di-dor, amlasiantaethol i'r broses o gyflwyno cymorth i deuluoedd yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn gam i ffwrdd oddi wrth

ymyrraeth ysbeidiol, ynysig tuag at ymagwedd fwy parhaus ac integredig, sy'n canolbwyntio ar y teulu. Mae'r ymateb hwn i broblemau sy'n wynebu rhieni yn cydgordio â blaenoriaethau a nodwyd yn y strategaeth ddrafft tlodi plant yr ymgynghorwyd arni yn ddiweddar.

5. Cyhoeddwyd dau gonsortiwm Arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf ym mis Gorffennaf. Mae un consortiwm yn cynnwys Awdurdodau Lleol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, ac mae'r llall yn cynnwys Awdurdodau Lleol Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

6. Caiff Teuluoedd yn Gyntaf ei gefnogi gan broses o ddysgu ymarferol a fydd yn cynnig cyfleoedd i'r canlyniadau a'r prosesau dysgu a ddaw o'r consortia gael eu datblygu a'u lledaenu ar draws pob rhan o Gymru.

7. Pasiwyd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ym mis Chwefror 2010. Mae'r Mesur yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi rhieni ymhellach drwy becyn o drefniadau. Yn arbennig, nod rhoi Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd lleol ar waith yw nodi a darparu cymorth cynharach i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed i leihau risg a gwella lles y plant sy'n agored i niwed. Ym mis Medi, lansiodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd sef prosiect a fydd yn grymuso teuluoedd sydd ag anghenion cymhleth i ddarparu canlyniadau gwell i deuluoedd a gwella'r broses o ddiogelu plant yng Nghymru.

8. Mae Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd arloesol yn cwmpasu pedwar awdurdod lleol - Merthyr Tudful gyda Rhondda Cynon Taf (fel consortiwm), Casnewydd a Wrecsam i gyd yn gweithio mewn partneriaeth weithredol gyda'r priod Fyrddau Iechyd. Yn unol â hynny, mae hyn yn berthnasol iawn i'r broses o ddewis y gyfran gychwynnol o arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf.

9. Rydym wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd ac wedi sicrhau mai cymorth i deuluoedd sydd wrth wraidd ein dull gweithredu i ddatblygu polisïau a rhaglenni. Rydym yn gwybod bod gwella nodweddion teuluoedd yn allweddol i wella eu canlyniadau tymor hwy. Anelwn at roi cymorth i deuluoedd ac, wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb rhieni a chanolbwyntio ar ganlyniadau a ystyrir eu bod yn enghreifftiau o rianta da a gwael. I ategu hyn, bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio i gefnogi datblygiad agweddau, nodweddion ac ymddygiad cadarnhaol yng nghyd-destun y teulu.

10. Gweler isod yr ymatebion, a ddarparwyd ym mis Mehefin 2009, wedi'u diweddaru, ar gyfer pob un o argymhellion y Pwyllgor:

| |
|---|
| ***ARGYMHELLIAD 1***<br>Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru benodi "hyrwyddwr rhianta" |

**Y wybodaeth ddiweddaraf am argymhelliad 1**

Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi cymorth i rieni yn gliriach ar yr agenda, ac mae Strategaeth ddrafft Tlodi Plant yn gosod rhieni yn gadarn yn y canol.

Ym mis Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf a dewis dau gonsortiwm "arloesol", y ddau yn cynnwys tair ardal Awdurdod Lleol. Ar hyn o bryd mae'r consortia yn datblygu cynigion sydd â'r nod o arloesi systemau ar gyfer darparu cymorth integredig effeithiol amlasiantaethol i deuluoedd. Bydd rhianta yn elfen bwysig o ddull gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf. Disgwylir i'r cynigion gael eu derbyn erbyn 30 Medi.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sicrhau bod £1.5m ar gael ar gyfer y fenter Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Ein bwriad yw cyhoeddi ail gyfran o arloeswyr yng Ngwanwyn 2011.

Mae adnoddau mewnol wedi cael eu had-drefnu i ffurfio tîm Cymorth i Deuluoedd, a sefydlwyd yn ystod haf 2010, i fod yn ganolbwynt yn natblygiad polisi teulu integredig a pharhau â'r gwaith tuag at waith cydgysylltu gwell rhwng adrannau'r llywodraeth. Fel rhan o'i gylch gwaith bydd y tîm yn canolbwyntio ar amryw broblemau sy'n wynebu rhieni.

Ar hyn o bryd mae Gweithgor Teuluoedd a gyfansoddwyd yn fras ac sy'n atebol i'r Bwrdd Rhaglen Tlodi Plant, yn cael ei sefydlu ar lefel swyddogol i hyrwyddo cydgysylltu pellach o ran cymorth i deuluoedd rhwng adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***ARGYMHELLIAD 2***

Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

**2.1**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddweud a oes unrhyw gamau gweithredu nas cwblhawyd yn y Cynllun Gweithredu Rhianta nad yw'n bwriadu mwyach eu rhoi ar waith, a rhoi rhesymau pam na chânt eu rhoi ar waith.

**2.2** O ran y camau gweithredu hynny y bwriada Llywodraeth Cynulliad Cymru eu datblygu o'r Cynllun Gweithredu Rhianta gwreiddiol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio amserlen glir ar gyfer eu cyflawni.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, rydym bellach wedi symud y tu hwnt i'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw cynrychioli ffordd lawer ehangach a mwy cyfannol sy'n canolbwyntio ar deuluoedd o nodi a threfnu cymorth a gwybodaeth effeithiol.

O'r deg cam gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Rhianta, cyflawnwyd dau yn rhannol, ond ni chyflawnwyd un, pwynt gweithredu 1.

*Pwynt gweithredu 1 - Byddwn yn datblygu llinell gymorth ddwyieithog genedlaethol i rieni yng Nghymru.*

Mae rhif ffôn cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi ei chreu fel y gall teuluoedd gael gafael ar wybodaeth a help am amryw faterion rhianta a materion yn ymwneud â'r teulu. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod rhwydwaith Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gyswllt pwysig rhwng y Llywodraeth a'r cyhoedd ac mae'n parhau i weithio i godi proffil ei gwasanaethau yng Nghymru.

Mae'r gynulleidfa darged ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynnwys teuluoedd, rhieni a phobl ifanc, pobl sy'n darparu gofal plant a chyfryngwyr sy'n cynnig cyngor a chymorth i deuluoedd.

Mae'r cyfrifoldeb polisi am y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd wedi ei drosglwyddo i'r Tîm Cymorth i Deuluoedd newydd gyda'r bwriad o gynyddu cwmpas ei wybodaeth a'i gyfeirio a'i gysoni'n agos iawn â'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf. Fel rhan o'r cysoni hynny, byddwn yn ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg teuluoedd y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a'i rôl.

*Pwynt gweithredu 2 – Dosbarthu llyfrynnau rhianta a luniwyd drwy'r Cynllun Gweithredu Rhianta*

Bydd yr ymwelydd iechyd yn rhoi copïau o 'Help wrth Law - Cymryd Ymagweddiad Cadarnhaol tuag at fagu Plant' ac 'O Amser Brecwast i Amser Gwely - Eich helpu chi a'ch plentyn trwy gydol y dydd!' i rieni newydd tua phedair i chwe wythnos ar ôl yr enedigaeth, fel atodiad i 'Y Blynyddoedd Cyntaf'.

Mae llenyddiaeth wedi cael ei brandio â'r logo Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, ac mae'n berthnasol i'r rhaglen Dechrau'n Deg.

Mae gan Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad arbenigol i rieni/gofalwyr ac i ddarpar rieni ar ofal plant a lleoedd addysg blynyddoedd cynnar am ddim yn eu hardal. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn gallu cyfeirio'r rhieni at wybodaeth am wasanaethau lleol eraill i helpu rhieni a darpar rieni i ddewis y gwasanaethau lleol mwyaf addas ar eu cyfer hwy a'u plant ac maent mewn sefyllfa dda i gynghori ar faterion lleol.

Mae sicrhau bod rhieni yn gwneud defnydd llawn o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n bodoli eisoes yn allweddol. Rydym wedi datblygu'r brand cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol a bydd un rhif cyswllt newydd y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru hefyd yn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth.

*Pwynt Gweithredu 3 - Gwefan annibynnol benodol i rieni*

Mae'r gwaith ar yr argymhelliad hwn yn parhau. Wrth ei weithredu bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ystyried y cyfryngau priodol, neu'r amrywiaeth o gyfryngau, i ddarparu gwybodaeth i rieni a theuluoedd, y rhyngwyneb â'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf a'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

**Goblygiadau Ariannol**:
Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***ARGYMHELLIAD 3***
Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

**3.1**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio Strategaeth Rianta gyffredinol a Chynllun Gweithredu Rhianta wedi'i ddiweddaru.

**3.2** Dylai'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi'i ddiweddaru ymgorffori'r camau gweithredu sydd eto i'w cwblhau yn y Cynllun Gweithredu Rhianta (gweler Argymhelliad 2).

**3.3**Dylai'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru hefyd ystyried polisïau newydd er mwyn dwyn ynghyd waith rhianta.

**3.4**Dylai'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru hefyd nodi camau gweithredu penodol er mwyn cynorthwyo tadau; neiniau a theidiau; rhieni plant hŷn/pobl yn eu harddegau; rhieni anabl; rhieni plant ag anableddau; rhieni a phartneriaid rhieni sydd yn y carchar; rhieni ifanc; rhieni sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau; a, rheini o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hefyd gynnwys gofalwyr maeth fel y bo'n briodol.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Bydd yr hwb cyffredinol am gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r argymhelliad hwn, ac ar gyfer polisi teuluoedd yn gyffredinol, yn deillio yn bennaf o'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf. Wrth i'r fenter ddatblygu, bydd yn cynnwys y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau ar hyn o bryd, lle y bo'n briodol ac yn darparu ffocws ehangach i rieni a theuluoedd, gan gynnwys neiniau a theidiau, gofalwyr ac eraill sy'n rhannu cyfrifoldeb rhianta ac ymrwymiadau teuluol yn gyffredinol.

Rydym yn parhau i fynd i'r afael â'r sefyllfa newidiol sy'n wynebu teuluoedd, gan ystyried yr hyn y mae ein rhaglenni amrywiol yn ei wneud a sicrhau bod buddsoddiadau yn cael yr effaith a ddymunir.  Bydd arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf yn adolygu ac yn newid systemau fel rhan o'r broses hon. Bydd y fenter Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn gweithio i gefnogi gwell dealltwriaeth ymysg rhieni o'u cyfrifoldebau a datblygu agweddau, nodweddion ac ymddygiad cadarnhaol.

**Goblygiadau Ariannol**: Bydd yn rhaid ystyried y gost o ddarparu Teuluoedd yn Gyntaf y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol mewn trafodaethau ag aelodau'r cabinet.

***ARGYMHELLIAD 4***

Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod adnoddau llawn a digonol ar gael ar gyfer y Strategaeth Rianta gyffredinol a'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi'i ddiweddaru, gan nodi'n glir y ffynonellau cyllid ar gyfer cyflawni pob pwynt gweithredu.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Caiff y fenter Teuluoedd yn Gyntaf ei hariannu hyd at £1.5m yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r fenter yn canolbwyntio'n glir ar ddeall, adolygu a mireinio systemau cymorth i deuluoedd. Ni ddylid cymryd, fodd bynnag, bod hynny'n golygu mabwysiadu ymagwedd model unigol at gymorth, ond yn hytrach modelau priodol a addesir yn ôl gwahanol amgylchiadau.

Roedd y cynllun gweithredu a llawer o'r camau y gellid eu cyflawni trwy raglenni yr oeddem yn eu hariannu. Mae angen i ni nodi  bod grant o £38 miliwn yn cael ei ddosbarthu i'n partneriaethau plant a phobl ifanc ar gyfer Dechrau'n Deg yn 2010-11; o'r arian hwn, mae £4.2 miliwn ar gyfer y rhaglen rianta Dechrau'n Deg. Yn 2010-11 mae £44.2 miliwn o arian Cymorth wedi ei ddyrannu i awdurdodau lleol, y mae £13.7 miliwn ohono wedi ei gyllidebu ar gyfer cymorth i deuluoedd, y darperir rhaglenni rhianta drwyddo. Rydym hefyd wedi cefnogi nifer o brosiectau, megis Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru a gwerthusiadau gan brifysgolion Bangor, Caerdydd a Warwig o effeithiolrwydd y rhaglenni rhianta, gyda mwy na £266,000 o arian grant.

**Goblygiadau Ariannol**: Bydd yn rhaid ystyried y gost o ddarparu camau gweithredu cyffredinol drwy Teuluoedd yn Gyntaf mewn trafodaethau ag aelodau'r cabinet.

***ARGYMHELLIAD 5***

Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi lefel gyffredinol y gwariant ar gymorth rhianta a sicrhau bod mwy o dryloywder ac eglurdeb ynglŷn â gwariant ym mhob adran yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai hyn fod yn rhan o'r broses flynyddol o bennu a dyrannu cyllideb.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Byddwn yn archwilio ymhellach y cyfleoedd a gyflwynwyd gan y dysgu a ddatgelwyd gan arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf i ddwyn ynghyd y ffrydiau ariannu sy'n berthnasol i'r Cynllun Gweithredu Rhianta a rhaglenni cysylltiedig i sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***ARGYMHELLIAD 6***
Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal ymgyrch wybodaeth ac addysg gyhoeddus fawr sy'n ofynnol i hyrwyddo rhianta cadarnhaol ac ymddygiad di-drais tuag at blant ymysg y boblogaeth ehangach. Dylai hyn gyfeirio rhieni at wybodaeth am wasanaethau cymorth ymarferol lleol i rieni. Dylai gael ei brandio â’r brand Hyrwyddwr Rhianta. Dylai hefyd roi cyhoeddusrwydd clir i’r llinell gymorth ddwyieithog.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo rhianta cadarnhaol drwy Teuluoedd yn Gyntaf, y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a thrwy gefnogi'r Gynghrair 'Sdim Curo Plant yng Nghymru (CAU). Rydym wedi ymrwymo’n llwyr o hyd i nodau ymgyrch 'Sdim Curo Plant i amddiffyn plant a phobl ifanc yn ôl y gyfraith yn yr un ffordd ag oedolion.

Un o brif elfennau'r rhaglen Dechrau'n Deg, yw cyflwyno'r rhaglenni rhianta, sydd wedi dangos eu bod yn effeithiol o ran canlyniadau plant a chael eu darparu gan weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg wrth werthuso'r rhaglen yn awgrymu bod gwelliannau yn hyder ac ymgysylltiad rhieni, yn dod â manteision posibl i'r teulu ehangach.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ariannu ac ailargraffu'r llyfryn 'Help wrth Law' i rieni newydd, ac 'Ymddygiad dros ben llestri mewn plant dan 10'.
Mae 'O Amser Brecwast i Amser Gwely' a 'Help wrth Law', yn parhau i gael eu dosbarthu i rieni newydd,
tua phedwar i chwe wythnos ar ôl yr enedigaeth, gan eu hymwelwyr iechyd, fel atodiad i 'Y Blynyddoedd Cyntaf' Nod y ddau lyfryn yw hyrwyddo rhianta cadarnhaol yn y blynyddoedd cynnar, ac mae 'Help wrth Law' wedi'i anelu'n benodol at hyrwyddo dewisiadau amgen i ddisgyblaeth gorfforol, yn unol â

pholisi Llywodraeth y Cynulliad. Gwyddwn drwy siarad ag ymwelwyr iechyd fod rhieni wedi croesawu'r llyfrynnau hyn.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi cynllun gweithredu strategaethol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a phlant ac rydym wedi diweddaru'r Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***ARGYMHELLIAD 7***

Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

**7.1**Yn dilyn ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni a gofalwyr o’r wybodaeth sydd ar gael iddynt drwy’r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ledled Cymru, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro ymwybyddiaeth o’r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ymysg y cyhoedd yng Nghymru.

**7.2**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd alluogi Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i gael ei frandio gyda brand yr Hyrwyddwr Rhianta.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn.

Mae cyfrifoldeb polisi am y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd wedi ei drosglwyddo'n ddiweddar i'r Tîm Cymorth i Deuluoedd gyda'r bwriad o gysoni'r cymorth, cyngor a'r cyfeirio y gall y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd eu darparu gyda gwaith Teuluoedd yn Gyntaf. Mae cyfarfod cenedlaethol Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 19 a byddwn yn ystyried y ffordd orau o weithredu hynny drwy gysylltiadau marchnata, ymwybyddiaeth ac adnoddau

Mae gennym ffocws clir ar wybodaeth i rieni a theuluoedd, gan gynnwys y rhan allweddol sydd gan Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i'w chwarae yn hynny. Fodd bynnag, dim ond un sianel yw'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a byddwn yn parhau i ddadansoddi effeithlonrwydd perthnasol y dulliau cyfathrebu gwahanol. Mae ymgysylltu'n gynnar ag arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf yn ategu'r egwyddor bod gwybodaeth effeithiol i rieni yn galw am rywfaint o segmentu a chymryd ymagweddau gwahanol.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***ARGYMHELLIAD 8***

Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad clir, statudol gan roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ac ysgolion ynghylch cynnwys rhieni mewn ysgolion, gan ystyried patrymau gwaith llawer o rieni yn ystod y dydd.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Amlygodd yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb yr angen i ysgolion weithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth â rhieni ac yn enwedig ar ffyrdd o weithio gyda rhieni sy'n llai hyderus wrth ymgysylltu ag ysgolion. Y Cynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb yw ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad. Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu bydd y Cynulliad yn asesu a gwerthuso prosiectau rhianta sydd eisoes yn bodoli i sefydlu a rhannu arferion da effeithiol yn y maes hwn. Mae camau gweithredu eraill yn y cynllun sy'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a rhieni yn cynnwys datblygu canllawiau ar y defnydd o Symudiadau wedi'u Rheoli a Rhaglenni Cymorth Bugeilio a fydd ar gael ar-lein yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Drwy'r Prosiectau Peilot Cynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb, mae Powys wedi sefydlu tîm o staff amlasiantaethol (gyda hyfforddiant proffesiynol craidd) i gynnal hyfforddiant Therapi Gwybyddol Ymddygiadol. Bydd hyn yn eu galluogi i gynnal ymyriadau Therapi Gwybyddol Ymddygiadol lefel isel gyda phlant, pobl ifanc neu eu teuluoedd. Gall y gwaith gael ei gwblhau gyda'r bobl ifanc a'u teuluoedd, ond gallai hefyd gynnwys ychydig o waith unigol gydag aelodau o'u teuluoedd os yw hyn yn debygol o arwain at y canlyniadau mwyaf effeithiol i'r bobl ifanc.

Yn ogystal â bod Cyrff Llywodraethu yn cynnal cyfarfodydd rhieni blynyddol ac yn rhoi adroddiad blynyddol i rieni, mae gofyn iddynt hefyd gael Cytundeb rhwng y Cartref a'r Ysgol sy'n egluro priod gyfrifoldebau ysgolion a rhieni wrth godi safonau a'r hyn y mae'r ysgol yn ei ddisgwyl gan ei disgyblion. Dylid annog rhieni a disgyblion i lofnodi'r Cytundeb ond ni ellir eu gorfodi i wneud hynny.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim – byddwn yn parhau i adeiladu ar y strategaethau sy’n bodoli eisoes a ariennir o fewn cyllidebau’r rhaglenni sy’n bodoli eisoes.

***ARGYMHELLIAD 9***

Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu astudiaethau ansoddol hirdymor ar amrywiaeth o raglenni rhianta. Dylai ddefnyddio'r un meini prawf i werthuso a chymharu rhaglenni rhianta. Yn benodol, dylai neilltuo adnoddau i werthuso prosiectau Home Start yng Nghymru.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Rydym yn parhau i ddarparu arian ar gyfer ymchwil a gwerthuso rhaglenni rhianta, gan gydnabod yr angen am sail dystiolaeth gadarn a all lywio datblygiad yn y dyfodol. Mae hyn yn parhau i gynnwys:

- *Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru* **-** Derbyniodd Prifysgol Bangor £114,000 dros y tair blynedd 2007-2010 i werthuso ymyrraeth newydd i rieni plant bach o enedigaeth hyd at 36 mis sy'n hyrwyddo rhianta cadarnhaol ac yn lleihau'r risg y bydd plant yn datblygu problemau ymddygiadol ac emosiynol gan gynnwys anhwylder ymddygiad. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn cwblhau dadansoddiad tymor byr ac mae wedi cynnal dadansoddiad rhagarweiniol hirdymor o'r data;

- *Cysylltiadau Teuluol* - £100,000 dros dair blynedd (ar hyn o bryd ym mlwyddyn 3) tuag at y gost o werthuso'r Rhaglen Cysylltiadau Teuluol: Magu Plant. Mae'r gwerthusiad hwn yn un sylweddol ac arloesol a gafodd ei gomisiynu ar y cyd â phedair ardal awdurdod lleol (Caerdydd, Casnewydd, Torfaen a Chaerffili) drwy eu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Bydd y dystiolaeth o'r gwerthusiad yn helpu i benderfynu a oes modd i'r rhaglen hon, a gynhelir yn yr ardaloedd uchod ar hyn o bryd, gael ei chynnwys ymhlith rhaglenni cymeradwy Dechrau'n Deg;

- *Prifysgol Caerdydd* - mae £136,021 wedi ei ddyfarnu i Brifysgol Caerdydd dros dair blynedd i estyn yr ymchwil a gynhelir gan yr Athro Gordon Harold i effeithiau gwrthdaro rhwng rhieni ar blant. Derbyniwyd adolygiad ymchwil yr Athro Harold ac rydym yn ystyried sut y gellir defnyddio'r data y mae wedi'i gasglu mewn ffyrdd eraill. Mae'r ymchwil sy'n bodoli eisoes yn dangos i ni effeithlonrwydd ymagwedd teulu cyfannol, yn hytrach nag ymagwedd sy'n seiliedig ar y plentyn yn unig; ac

- *IPSOS MORI a SQW* - Rydym bellach yn cyrraedd diwedd y contract gwerthuso tair blynedd o werthusiad hirdymor, ansoddol o Cymorth a Dechrau'n Deg, gan gonsortiwm a arweinir gan IPSOS MORI a SQW. Cyhoeddwyd ail adroddiad gwerthuso interim Dechrau'n Deg ar 16 Gorffennaf 2010. Disgwylir canlyniadau arolwg o rieni yn gynnar yn 2011 a bydd yn rhoi tystiolaeth ar ganlyniadau cynnar y rhaglen. Cyhoeddir adroddiad gwerthuso Cymorth ar y 30 Medi 2010. Cyhoeddwyd yr astudiaeth thematig ar gynllunio a darparu rhaglenni cymorth effeithiol i rieni a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad, ym mis Hydref 2009.

Mae gofyn i bob Awdurdod Lleol gadw 2% o arian Cymorth ar gyfer gwerthuso, a fydd yn cynnwys gwerthuso rhaglenni rhianta.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim – byddwn yn parhau i adeiladu ar y strategaethau sy'n bodoli eisoes a ariennir o fewn cyllidebau'r rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

***ARGYMHELLIAD 10***
Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio'r posibilrwydd o atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer rhannu arferion da ledled Cymru, a nodi a rhannu arferion da o enghreifftiau rhyngwladol.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn.

Daw'r pwyslais ar atgyfnerthu trefniadau i nodi, datblygu a rhannu modelau o arfer da yn bennaf o Teuluoedd yn Gyntaf. Mae hwn yn ganolog i nod y fenter.

Rydym yn aros am y cynigion cyntaf gan y consortia cyntaf ond mae'r awydd a'r parodrwydd amlwg i rannu modelau, ymyriadau a meithrin y gallu i gyfnewid gwybodaeth rhwng arloeswyr yn galonogol.

Mae cyfran o'r £1.5m sydd ar gael i Teuluoedd yn Gyntaf yn y flwyddyn ariannol hon wedi cael ei chadw fel y gellir gwneud ymchwil weithredu, lledaenu'r gwersi a ddysgwyd ledled Cymru a rhannu arfer da o ardaloedd ymhellach i ffwrdd.

Mae'r argymhelliad hefyd yn galw am yr angen i asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i deuluoedd mewn modd cydgysylltiedig allu rhannu gwybodaeth bersonol am unigolion, yn ddiogel, yn gyfreithiol ac yn hyderus. Bydd gweithredu o'r fath yn digwydd o dan amgylchiadau ar wahân i'r rheini lle mae pryderon am ddiogelwch yn bodoli, (gweler o dan Argymhelliad 11), a lle bo cydweithredu effeithiol rhwng darparwyr yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion unigol teuluoedd a phlant y cytunwyd arnynt.

Yn hyn o beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu rhaglen i sicrhau y caiff ymagwedd gyffredin at Rannu Gwybodaeth Bersonol ei mabwysiadu mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru fel bod y dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed yn cael gwasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu, eu targedu a'u darparu yn gydlynol ac yn effeithiol.

Mae'r cynllun yn adeiladu ar Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a'i nod yw sefydlu Cymunedau Rhannu Gwybodaeth lleol sy'n dod â chynrychiolwyr o asiantaethau allweddol ynghyd i ddarparu ffynonellau unigol o gyngor ar y broses weithredu a chefnogaeth iddi.

Cyflawnir cydweithredu corfforaethol yn Llywodraeth y Cynulliad drwy Fwrdd a sefydlwyd ar lefel Cyfarwyddwr Cyffredinol i arwain y rhaglen, o dan gadeiryddiaeth Dr Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gyfarwyddiaeth Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol, gan

weithio gyda APADGOS a Chyfarwyddiaethau Iechyd a Gwasanaethau Chymdeithasol. Mae aelodau'n cynnwys adrannau eraill a rhanddeiliaid allanol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, Cyfiawnder Troseddol, NOMS a'r sector gwirfoddol.

Mae Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol amlasiantaethol wedi cael ei lunio i sicrhau'r ymgysylltiad traws-sector â rhanddeiliaid sy'n hanfodol i gydweithredu'n llawn. Mae cynigion ar gyfer rhaglen datblygu WASPI a sefydlu rhwydwaith o Gymunedau Rhannu Gwybodaeth lleol yn cael eu datblygu.

Mae'r prif amodau ar gyfer llwyddiant yn seiliedig ar sicrhau cydweithrediad llawn ar draws sefydliadau yn genedlaethol ac yn lleol, a chynnwys cyfarwyddwyr gwasanaethau cyhoeddus ar lefel weithredol yn y gwaith gweithredu, er enghraifft drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol. Fel blaenoriaeth gynnar, ein nod yw sicrhau prosesau llywodraethu cyffredin o rannu gwybodaeth fel bod, er enghraifft, protocol Dechrau'n Deg addas sy'n seiliedig ar WASPI a gafodd ei ddatblygu mewn ardal Partneriaeth Pwyllgor Plant a Phobl benodol yn cael ei fabwysiadu'n genedlaethol.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim – byddwn yn parhau i weithredu'r strategaethau presennol a ariennir o fewn cyllidebau’r rhaglenni sy’n bodoli eisoes.

***ARGYMHELLIAD 11***
Mae'r Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud datganiad clir y dylai gweithwyr proffesiynol, wrth benderfynu torri’r rheol cyfrinachedd er mwyn diogelu’r plentyn dan sylw neu blant eraill rhag perygl o niwed difrifol, ddiystyru rhagdybiaethau sy’n seiliedig ar gefndir economaidd neu gymdeithasol y rhieni, a gwneud penderfyniad fesul achos.

Derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor

Fel y nodwyd eisoes nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiad lle y mae rhiant neu oedolyn wedi hysbysu'r asiantaethau statudol o unrhyw bryderon sydd ganddynt ac o'r herwydd wedi cael eu trin yn wahanol oherwydd eu hamgylchiadau neu gefndir. Nid yw hyn wedi newid.

Er mwyn sicrhau ymagwedd gyffredin i'r broses o rannu gwybodaeth bersonol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mae Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu rhaglen sy'n adeiladu ar Gytundeb Rhannu Gwybodaeth

Bersonol Cymru (WASPI). Gweler y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas ag argymhelliad 10.

O ran y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Gan ddefnyddio pwerau'r Mesur newydd[1] o 1 Medi 2010 mae'r rheoliadau'n[2] darparu ar gyfer sefydlu Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd mewn pedair ardal awdurdod lleol - Casnewydd, Merthyr a Rhondda Cynon Taf a Wrecsam. O'r dyddiad hwn, mae'r rheoliadau hefyd yn gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol Cwm Taf, Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr fod yn bartneriaid gweithredol wrth gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o ran sefydlu tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd a darparu swyddogaethau cymorth i deuluoedd (Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd).

I gychwyn bydd y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer rhieni sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau neu ddarapr rieni lle mae'r plant mewn perygl neu mewn angen. Mae'r grŵp yn cynrychioli tua 70% o'r boblogaeth sydd mewn angen a atgyfeirir at y gwasanaethau cymdeithasol. Mae deddfwriaeth yn golygu y gall Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd gael ei ehangu i gynnwys amgylchiadau eraill gan gynnwys iechyd meddwl, trais domestig ac anabledd dysgu.

Mae gofyn i bob ardal arloesol sefydlu Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd statudol a fydd â dyletswyddau penodol[3] mewn perthynas â Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd/ Timau. Bydd y Byrddau Integredig Cymorth i Deuluoedd hyn yn gwneud y gorau o gydweithio â phartneriaid i leihau dyblygu a sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir mewn partneriaethau. Mae'r canllaw'n pwysleisio rôl bwysig y Byrddau Gwasanaethau Lleol wrth gefnogi'r Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd drwy herio rhwystrau i gydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn effeithiol.

Nod y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yw darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y teulu i alluogi rhieni i gyflawni newid ymddygiadol sy'n gwella eu gallu rhianta a chynnwys y teulu ehangach yn y broses newid. Mae hefyd yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a threfniadol sy'n cael effaith ar ofal diogel eu plentyn. Mae'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn ceisio diwallu anghenion holl aelodau'r teulu ac mae'r fframwaith rheoliadol yn darparu dulliau sy'n galluogi awdurdodau lleol a BILl i ddarparu dulliau gweithredu integredig di-dor o weithio gyda phlant a theuluoedd.

[1] Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

[2] (i) Gorchymyn Cychwyn Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
(ii) Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) 2010
(iii) Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Rhagnodedig) 2010
(iv) Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) 2010

[3] Gweler adran 62 (1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**Goblygiadau Ariannol**: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

**Huw Lewis**
**Y Dirprwy Weinidog dros Blant**
**Hydref 2010**